LLWYBR
ROUTE
2



teithiaucerdded
# LLANRWST
walks

**ehangwch eich gorwelion…**
**broaden your horizons…**

- **taith gylch**
- **o dref Llanrwst i bentref Llanddoged**
- **coetir, caeau agored a golygfeydd**



- **circular walk**
- **from Llanrwst town to Llanddoged village**
- **woodland, open fields and views**



### SUT YDW I'N MYND YNO?

**Gyda'r trên:** Mae trenau Rheilffordd Dyffryn Conwy yn aros yn Llanrwst: www.conwyvalleyrailway.co.uk
Ymholiadau rheilffordd cyffredinol: 08457 48 49 50
www.nationalrail.co.uk

**Gyda bws:** Mae'r Bws Sherpa a gwasanaethau eraill yn aros yn Llanrwst. Mae gwasanaeth bws sydd yn rhedeg rhwng Llanrwst a Llanddoged.
www.traveline-cymru.info
Traveline Cymru: 0871 200 22 33
Llinell Ymholiadau Cludiant Cyhoeddus: 01492 575412

**Gyda'r car:** Dilynwch yr A470 i Lanrwst (mae'r meysydd parcio yn cael eu dangos ar y map)

### RHAGOR O DEITHIAU CERDDED YNG NGHONWY:

www.conwy.gov.uk/cefngwlad
**E-bost:** cg.cs@conwy.gov.uk
**Ffôn:** 01492 575290

## I gael copi print bras o'r daflen hon, ffoniwch 01492 575290

### HOW DO I GET THERE?

**By train:** Conwy Valley Train Line will stop at Llanrwst: www.conwyvalleyrailway.co.uk
For general rail enquiries: 08457 48 49 50
www.nationalrail.co.uk

**By bus:** The Sherpa bus and other services stop at Llanrwst. There is a bus service that runs between Llanrwst and Llanddoged:
www.traveline-cymru.info
Traveline Cymru: 0871 200 22 33
Public Transport Enquiry Line: 01492 575412

**By car:** Follow the A470 to Llanrwst (see map for parking)

### MORE WALKS IN CONWY

www.conwy.gov.uk/countryside
**Email:** cg.cs@conwy.gov.uk
**Tel:** 01492 575290

## For a large print copy of this leaflet please call 01492 575290

**Am ragor o wybodaeth am Lanrwst / for more information about Llanrwst:** www.llanrwst.net
**Canolfannau Croeso / Tourism Information Centres:**
Conwy: 01492 592248
Betws-y-Coed: 01690 710426

# LLANDDOGED

## Cyflwyniad

Mae Eglwys Doged Sant yn eglwys gyda chorff dwbl o ddiwedd yr oesoedd canol, wedi'i lleoli'n amlwg yng nghanol y pentref mewn mynwent siâp cylch. Awgryma hyn ei fod yn safle Celtaidd.



## Introduction

The Church of St. Doged is a late Medieval double-naved church. It is located within a circular churchyard in the middle of the village. This suggests that it is Celtic.

### *Ar y daith hon a wnewch chi sylwi*

Efallai bydd gwartheg a defaid yn pori mewn ambell i gae.

### *For this walk please note*

Some of the fields may have cattle and sheep grazing.








© Hawlfraint y Goron. Cedwir pob hawl 100023380 2009. © Intermap Technologies Inc. Cedwir pob hawl DCON100 2009.
© Crown copyright. All rights reserved 100023380 2009. © Intermap Technologies Inc. All rights reserved DCON100 2009.



Gwasanaeth Cefn Gwlad Conwy Countryside Service
Cyngor Cefn Gwlad Cymru Countryside Council for Wales
Her Iechyd Cymru Health Challenge Wales
menter nant conwy
Trailblazers
Cyngor Tref Llanrwst Llanrwst Town Council




01 O'r maes parcio trowch i'r dde i ddilyn y brif ffordd (A470) i'r chwith i fynd heibio'r sgwâr. Ewch ymlaen ar hyd Heol Ddinbych nes i chi ddod at groesffordd. ✻ Ewch i www.llanrwst.net i gael rhagor o wybodaeth.

02 Trowch i'r chwith wrth y groesffordd ac yna i'r dde yn syth i fyny Regents Park. Ewch ymlaen ar hyd y lôn/llwybr nes cyrraedd ystâd a ffordd o'ch blaen.

03 Ewch ar hyd y llwybr cyntaf i'r dde cyn cyrraedd y bont. Dilynwch y llwybr ar lan y nant. Ewch ymlaen a throi i'r dde (cyn cyrraedd pont droed ar eich chwith) a dilynwch lwybr drwy gae i Goed y Felin (safle sy'n cael ei reoli gan Wasanaeth Cefn Gwlad Conwy). Arhoswch yma i ddarllen y panel gwybodaeth. Ewch ymlaen drwy'r coed am tua 500m at lôn ac adfeilion Felin Uchaf ar eich chwith. **Byddwch yn ofalus, mae'r llwybr yn serth ac yn gul mewn mannau ac mae'n gallu bod yn llithrig.**

04 Trowch i'r chwith ac igam-ogamu i fyny'r lôn. Dilynwch y lôn am tua 1.5km tuag at bentref Llanddoged. Trowch i'r chwith wrth gyffordd T, ac yna i'r dde ar ôl mynd heibio'r ysgol i ddilyn Ffordd Trwyn Swch am tua 1km. **Byddwch yn ofalus mae cerbydau weithiau'n defnyddio'r lôn hon.** ✻ Efallai hoffech ymweld ag eglwys Llanddoged (wedi ei nodi ar y map).

05 Edrychwch am fynediad i fferm Trwyn Swch Mawr ar eich chwith. Trowch i'r dde gyferbyn â mynediad y fferm, i ddilyn y llwybr sydd wedi ei arwyddo ar draws y caeau am tua 1km i gyrraedd lôn.

06 Trowch i'r dde i gerdded ychydig i fyny'r lôn. Wrth y fferm gyntaf (Pen Bryn Doged) ar eich chwith, ewch drwy'r giât a buarth y fferm. Ewch ymlaen heibio'r adeiladau i ddilyn llwybr wedi ei arwyddo drwy'r caeau am tua 700m i gyrraedd cyffordd llwybrau gyda llwybr o'ch blaen a llwybr arall i'r dde.

07 Ewch ar hyd y llwybr i'r dde a'i ddilyn i lawr drwy'r caeau (am tua 1km), gan groesi llwybr mynediad a lôn i fynd heibio cae chwarae ar eich dde. Trowch i'r chwith wrth i chi gyrraedd yr ystâd a dilyn y ffordd ymlaen i'r chwith. Wrth gyffordd, dilynwch y ffordd i'r dde a throi i'ch chwith dros bont i aildroedio'r llwybr yng ngwaelod Coed y Felin yn ôl i ddechrau'r daith.

01 From the car park turn right to follow the main road (A470) around to the left to pass Ancaster Square on your right. Continue ahead along Denbigh Street until you arrive at a crossroads. ✻ For more information about Llanrwst visit www.llanrwst.net

02 At the crossroads turn left and then immediately right up Regents Park. Continue along the lane/footpath until you emerge on an estate and a road ahead of you.

03 Take the first foopath on your right just before the bridge. Follow the footpath along the stream. Continue ahead to turn right (just before a footbridge on your left) and follow a footpath through a field into Coed y Felin (a site managed by Conwy Countryside Service). Take a few minutes to read the information panel. Continue through the woods for about 500m to meet a lane and the ruins of Felin Uchaf (top mill) to your left. **Take care the path is steep and narrow in places and can be slippery.**

04 Turn left to zig zag up the lane. Continue along the lane for about 1.5km to approach Llanddoged village. At a T-junction turn left and then right just after the school to follow Ffordd Trwyn Swch for about 1km. **Take care this lane is used occasionally by vehicles.** ✻ You may like to look at the church (marked on the map) in Llanddoged.

05 Keep an eye out for the entrance to Trwyn Swch Mawr farm on your left. Opposite the farm entrance turn right to follow the footpath that is waymarked across the fields for about 1km to emerge on a lane.

06 Turn right to walk a short distance up the lane. At the first farm (Pen Bryn Doged) on your left go through the gate and farm yard. Continue ahead, past the buildings to follow a waymarked footpath through the fields for about 700m to arrive at a footpath junction with a footpath ahead and one to the right.

07 Take the footpath to your right. Follow this footpath across the first field and then down through the fields (for about 1km), crossing a driveway and a lane to go past a playground on your right. As you reach the estate follow the road around to the left. At a road junction follow the road to the right to turn left over a bridge to retrace your steps from the footpath at the bottom of Coed y Felin back to the start of the walk.